

SEINIAU'R GYMRAEG

CYTSEINIAID

Lle mae yna rwystr i lif y llafar.

Gall y rhain fod naill ai'n **DDI-LAIS** ne'n **LLEISIOL**.

Ffrwydrolion

Lle mae'r anadl yn cronni tu ôl i rwystr ac wedyn yn ffrwydro allan drwy'r geg.

Ffrwydrolion Di-lais

p	-	Ffrwydrolen ddwywefusol ddi-lais
t	-	Ffrwydrolen Orfannol Ddi-lais
c	-	Ffrwydrolen Felar Ddi-lais

Ffrwydrolion Llaisiol

b	-	Ffrwydrolen ddwywefusol leisiol
d	-	Ffrwydrolen orfannol leisiol
g	-	Ffrwydrolen felar leisiol

Ffrithiolion

Lle mae'r anadl yn cael ei ollwng allan yn araf gyda chyffyrddiad rhwng rhan o'r tafod a'r geg.

Ffrithiolion Di-lais

ff / ph	-	Ffrithiolen ddwywefusol ddi-lais
th	-	Ffrithiolen ddeintiol ddi-lais
ch	-	Ffrithiolen felar ddi-lais

Ffrithiolion Llaisiol

f	-	Ffrithiolen ddwywefusol leisiol
dd	-	Ffrithiolen ddeintiol leisiol

Trwynolion

Lle mae'r anadl yn cael ei ollwng drwy'r trwyn yn hytrach na thrwy'r geg.

Trwynolion Di-lais

mh	-	Trwynolen ddwywefusol ddi-lais
nh	-	Trwynolen orfannol ddi-lais
ngh	-	Trwynolen felar ddi-lais

Trwynolion Llaisiol

m	-	Trwynolen ddwywefusol leisiol
n	-	Trwynolen orfannol leisiol
ng	-	Trwynolen felar leisiol

Seiniau Tawdd

Lle mae rhan o'r tafod yn cyffwrdd â'r geg, ond mae'r anadl yn cael ei ollwng yn ddirwystr drwy'r bwlch.

Seiniau Tawdd Di-lais

ll	-	Ochrolen ddi-lais
rh	-	Trawolen ddi-lais

Seiniau Tawdd Lleisiol

l	-	Ochrolen lleisiol
r	-	Trawolen lleisiol


Hanner Cytseiniaid

w	-	Hanner cytsain ddwywefusol lleisiol
i	-	Hanner cytsain orfannol lleisiol


LLAFARIAID

Yma does dim rhwystr i lif y llafar; mae ansawdd y sain yn dibynnu ar safle'r tafod yn y geg a ffurf y gwefusau.


Mae siâp y geg yn edrych yn debyg i hyn:



Ond mae'n gonfesiwn erbyn hyn, i gynrychioli'r geg yn sgematig fel a ganlyn:



Lle mae pob pwynt yn cynrychioli **PRIF SAIN**. O safbwynt y Gymraeg, mae'r rhain fel a ganlyn:




Deuseiniad

Fel mae'r enw yn awgrymu, mae'r rhain yn cynnwys **DWY** lafariad mewn un **SILLAF** neu 'anadl'. Maen nhw'n cael eu dosbarthu yn ôl y brif elfen, sef:

1. deuseinaid **DISGYNEDIG**, lle mae'r acen ar y sain gyntaf; a
2. deuseiniaid **DDYRCHAFEDIG**, lle mae'r acen ar yr ail sain.

Dyma enghraifft o ddeusain ddisgynedig (ai):



Deuseiniaid Disgynedig

ai, ae, au, aw
 ei, eu, ey, ew
 iw, uw, yw
 oe, oi, oy, ow
 wy

Deuseiniaid Dyrchafedig

ia, ie, io,
 wa, we, wi, wo